


**Teulu o ddysgwyr ......**

Mae pawb yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn **ddysgwr**. Rydyn ni i gyd yn dysgu, yn datblygu ac yn gwella ein sgiliau i'n helpu ni i ddatblygu i fod yn ddinasyddion hyderus ac uchelgeisiol. Rydym yn mwynhau cydweithrediad cryf rhwng ein holl randdeiliaid ac yn hyrwyddo'r neges bod ein hysgol yn 'Sefydliad sy'n Dysgu'.

**....sy'n ymfalchïo yn ein hiaith a'n hetifeddiaeth .....**

Rydym yn ysgol Gymraeg ac rydym yn **ymfalchïo yn ein hiaith** a'n diwylliant Cymreig. Rydym yn ymfalchïo wrth ddysgu am hanes ac **etifeddiaeth** ein hardal leol a Chymru. Mae'n bwysig ein bod ni'n gweld ein hunain fel **dinasyddion** Cymru a'r byd, gan gofleidio cyfleoedd i ddatblygu moesau cadarn ac agweddau iach tuag at ein hiechyd corfforol a meddyliol. Rydym yn annog mynegiant creadigol; boed yn gymdeithasol, yn gerddorol, trwy ymdrechion chwaraeon neu'n academaidd.

**....wrth i ni gydweithio i ddatblygu fel dinasyddion hyderus ac uchelgeisiol.**

Rydyn ni'n **uchelgeisiol** yn y ddarpariaeth rydyn ni'n ei chynnig ac yn ein disgwyliadau. I fod yn **hyderus** ac **uchelgeisiol** ein hunain, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd cryf a'r gallu i ddefnyddio ein cymwyseddau digidol mewn ffyrdd mentrus.